

Y GWASANAETH ADDYSG:

CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 16 Hydref 2019
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1

AGENDA DDRAFFT

Cyf	Eitem	Categori	Yn Arwain
1	Ymddiheuriadau a chroeso i'r FfCY	Eitem sefydlog	Cadeirydd
2	Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 10 Gorffennaf 2019 a materion yn codi:	Eitem sefydlog (papurau wedi'u hatodi)	Cadeirydd
3	Pwysau ar Gyllideb Ysgolion 2020/21	Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad)	Neil Hardee/Rob Green
4	Diweddariad ADY	Gwybodaeth	Jennie Hughes
5	Ôl-16	Gwybodaeth	Neil Hardee
6	Sefyllfa Ariannol – Diswyddiadau; MSF; CNE	Gwybodaeth a Thrafodaeth	Rob Green
7	CLG	Gwybodaeth (i'w restru)	Neil Hardee
8	Unrhyw Fater Arall	Eitem sefydlog	Cadeirydd

Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol:

2019

2020

27.11.2019

15.01.2020

11.03.2020

08.07.2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 16 Hydref 2019
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1, Neuadd y Sir
Yn bresennol: Sarah Griffiths - Cadeirydd (SG), Y Cyng. Chris Weaver, Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), John Hayes (JH), Angela Jardine (AJ), David Harris (DH), Adrian Dinsmore (AD), Nic Naish (NN), Suzanne Williams (SW), Abigail Beacon (AB), Jane Marchesi (JM), Sara Allen (SA), Tracey Stephens (TS), Jane Counsell (JC), David Silver (DS), Mari Phillips (MP), Karen Dell'Armi (KA), Jennie Hughes (JHu) Louise Bloom – Clerc (LB)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Sarah Merry, y Cyng. Joel Williams (JW), Nick Batchelar (NB), Ian Allwood (IA), Mike Tate (MT), Richard Portas (RP), Marc Belli (MB), Geraldine Foley (GF), Kevin Hart (KH), Jane Setchfield (JS), Ivor Gittins (IG), Ann Griffin (AG), Sarah Parry (SP), Diane Gill (DG), Andrew Skinner (AS)

Cyf	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
1	Ymddiheuriadau a chroeso	
1.1	Nodwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cadeirydd.	
2	Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi	
2.2	Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2019 yn gofnod cywir, yn amodol ar wneud newid ar gyfer mynychwr.	
2.3	<u>Materion yn codi</u>	
2.4	Cofnod 2.4: Dosbarthwyd gwybodaeth am ddiswyddiadau a balansau ysgolion i'r fforwm.	

Dywedodd NH fod DS ac NH wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn ddiweddar lle trafodwyd balansau ysgolion. Ysgrifennwyd at ddeunaw ysgol oedd â mwy o arian na throthwy Llywodraeth Cymru yn flaenorol gyda chyfarwyddyd i'w wario, gyda dim ond pedair o'r ysgolion hyn yn dilyn y cyfarwyddyd a'r pedwar ar ddeg ysgol arall yn cadw'r arian dros ben (dros £50k ar gyfer ysgolion cynradd, £100k ar gyfer ysgolion uwchradd/arbennig neu 4% o'u cyllideb ddirprwyedig). Ysgrifennwyd at yr ysgolion hyn eto a'u gwahodd i gyfarfod â swyddogion i drafod pam nad yw'r cyfarwyddyd wedi'i ddilyn, bydd adfachu'n cael ei ystyried.

	digonolrwydd ariannu a dosbarthu arian - ac wedi gofyn i awdurdodau lleol weithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad.	
2.5	<p>Cofnod 3.1: Ymhlith y papurau a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod roedd diweddariad ar y GGA a llythyr a ysgrifennwyd i'r Gweinidog ar ran clwstwr Ysgol Uwchradd Fitzalan ynghylch effaith bosibl colli'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG). Dywedodd NH fod trafodaethau'n parhau. Bydd yn cyfarfod yn ddiweddarach â chadeirydd ysgol Gynradd Kitchener i barhau i drafod dosbarthu arian. Cyfeiriodd NH hefyd at y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Is-sy'n wahanol i bob awdurdod ac a allai arwain at ostyngiad o hyd at 25%. Cedwir £900,000 yn ganolog ar gyfer staff. Nododd DH fod y Gweinidog wedi cadarnhau ar wahân y byddai'r MEAG yn cael ei gynnal ar yr un lefel eleni a chytunodd yr aelodau i wneud penderfyniad pendant ar fwy o ymrwymiad. Bydd NH yn llunio llythyr ac yn ei rannu gyda'r fforwm, gan wahodd mewnbwn gan CLILC, undebau ac ysgolion. Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith y byddai arian yn effeithio ar staffio a phenderfyniadau ar bennu cyllidebau ysgolion, ychydig iawn o ysgolion sydd â chyllidebau'n cynnwys arian dros ben.</p> <p>Cyfeiriodd y Cadeirydd at bryderon a godwyd yng nghyfarfod blaenorol disgyblion Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) y Tu Allan i'r Sir nad oeddent yn cael eu hariannu ac argymhellodd y dylid cysylltu ag awdurdod lleol y disgybl i adennill yr arian. Mae hyn yn cael ei ystyried, gyda phwysau'n cael eu rhoi ar Lywodraeth Cymru o ran LACE. Argymhellodd DH y dylid gwella data LACE drwy ychwanegu CYBLD a chategorïau eraill i gynnig gwelededd y tu ôl i'r llenni, ar hyn o bryd mae rhai disgyblion yn cael cymorth heb arian.</p>	Pawb
2.6	Cofnod 6.1: Bydd NH yn rhoi adborth i David Lowe y bydd y gronfa wrth gefn (tua £500,00) yn cael ei hailddosbarthu i ysgolion a oedd wedi prynu i mewn ond nad oeddent wedi elwa eto. Bydd y Panel Wrth Gefn yn cael ei gynnwys yn cyfarfodydd sy'n digwydd bob pythefnos.	NH
2.7	<p>Cofnod 9.1: Cyfeiriodd NH at y cynllun peilot lechyd a Diogelwch, i'w ailystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol. Roedd yr adborth yn cyfeirio at y ffaith bod y cynllun peilot yn gweithio'n well na'r system flaenorol, ond roedd rhai'n teimlo y gallai fod yn well gwasanaeth. Mae diweddariad chwarterol ar gydymffurfiaeth ar draws yr awdurdod yn dangos bod Addysg yn perfformio'n dda. Gobeithir parhau â threfniant ar y cyd a bydd yr ALL yn penderfynu ar hyn, yn y cyfamser, bydd y trefniadau presennol yn parhau.</p> <p>Cododd rhai aelodau bryderon ynghylch problemau cyfathrebu rhwng staff a gyflogir mewn ysgolion, swyddogion y CTY, swyddogion RhC a swyddogion lechyd a Diogelwch, eir i'r afael â'r pryderon. Awgrymodd TS ailddosbarthu swyddogion lechyd a Diogelwch ar draws ysgolion yn ôl yr angen.</p>	NH
3	Pwysau ar Gyllideb Ysgolion 2020/21	
3.1	<p>Cyflwynodd RG y wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb ysgolion 2020/21. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynigion ar sicrhau arbedion mewn cyfarwyddiaethau</p>	

	<p>Mae'n debygol y bydd y setliad dros dro chwe wythnos yn hwyrach na'r arfer (diwedd mis Tachwedd 2019), a fydd yn lleihau'r cyfnod pennu cyllideb fel y bydd yn dod i ben ym mis Chwefror.</p> <p>Disgwylir ymgynghori ddiwedd mis Rhagfyr hyd at ganol/diwedd mis Ionawr.</p> <p>Daeth ymgynghoriad LIC ar gynnydd o 2.75% i gyflogau athrawon ym mhob gradd ac eithrio M1, y mae cynnydd o 5% wedi ei gynnig ar ei chyfer, ar 16 Medi. Ni chytunwyd ar benderfyniad eto. Mae lobio drwy CLILC i sicrhau bod athrawon yn cael eu hariannu'n llawn. Bydd AJ yn diweddarau ymhellach.</p> <p>Mewn cyfarfod cyllid diweddar gan CCAC, adroddwyd y gallai'r Grant Amddifadedd Disgyblion a bennwyd ar lefelau CYBLD 2016 gael ei newid i CYBLD 2018. Bydd angen ystyried yr effaith unigol ar ysgolion, yn ogystal â'r darlun cyfan o ran ariannu.</p> <p>Bydd modd i Gaerdydd fanteisio ar tua £5m gan Grant seilwaith TGCh 2019/20 yn 2019/20. Ceir y rhan fwyaf o'r arian hwn drwy gatalog Llywodraeth Cymru yn hytrach na'r arian yn cael ei ddsbarthu i ALLau. Byddai'r grant yn codi seilwaith i lefel benodol mewn ysgolion ac yn y pen draw yn lleihau'n flynyddol. Byddai angen i ALLau ddatblygu model ariannu cynaliadwy ar ôl ei gwblhau a'i ystyried yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fformiwla.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau a fyddai pob ysgol yn elwa gan fod gan rai ysgolion lefel dda o TGCh. Dywedodd NH fod archwiliad gwaelodlin wedi'i gynnal; bydd cais i Lywodraeth Cymru yn cael ei lunio erbyn mis Hydref 2019 a'i gyflwyno erbyn canol mis Tachwedd. Byddai ysgolion yn cael eu codi i lefel gyfartal er efallai na fyddai rhai ysgolion yn elwa yn y cylch cyntaf, gan mai rhaglen fuddsoddi yw hi, byddent yn elwa'n ddiweddarach.</p> <p>Gall ysgolion sydd eisoes â lefel dda o TGCh fod yn enghraifft o arfer gorau a chynaliadwyedd, gyda chynlluniau peilot cael eu hawgrymu mewn ysgolion cynradd.</p> <p>Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod rhai ysgolion wedi buddsoddi'n helaeth mewn TGCh, a gallai'r cynllun annog peidio â buddsoddi. Bydd NH yn anfon e-bost at ysgolion i gasglu gwybodaeth am wariant TGCh; byddai trafodaeth yn cael ei chynnal gydag ysgolion nad ydynt wedi gwario ar TGCh.</p> <p>Tynnodd yr Aelodau sylw at bwysigrwydd addysg a gofynnon nhw i'r gyllideb gael ei diogelu. Eglurodd y Cynghorydd Weaver fod addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu diogelu'n gymharol fwy na gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r gyllideb yn agored i newid. Ceisir arbedion sy'n fwy nag 1% mewn gwasanaeth eraill a bydd hyn yn parhau. Nid oes unrhyw feysydd wedi'u clustnodi, mae gan y gwasanaethau cymdeithasol broblemau dybryd.</p> <p>Esboniodd RG y ceisir tua 1% o arbedion gan ysgolion ac mae'n cyfateb i'r cap o 30% a oedd ar waith yn flaenorol. Nid yw niferoedd disgyblion yn hysbys a gall amrywiadau effeithio ar ysgolion.</p> <p>Awgrymodd aelod y dylai'r adrannau iechyd ac addysg gydweithio er mwyn ategu ei gilydd.</p>	<p>AJ</p> <p>NH</p>
4	Diweddariad ADY	

4.1	<p>Dywedodd JHu fod y broses o weithredu ADYTA wedi'i gohirio o fis Medi 2020 i fis Medi 2021. Mae gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo'n dda. Yn ariannol, bydd y TGAC, y Fformiwla ADY a'r rôl Cydlynedd ADY yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses o weithredu ADYTA. Felly, bydd gweithgor y TGAC yn uno ag Fforwm Cyllideb Ysgolion. Cynhelir cyfarfodydd grwpiau gorchwyl a gorffen ariannu'r gynrychiolaeth dda o benaethiaid, a chroesewir penaethiaid cyfrwng Cymraeg. Nodwyd nad yw Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg I (SACDA) ar waith eto, mae swyddogion iechyd yn ystyried sut i gaffael adnoddau ar gyfer y broses newydd.</p>	
5	Ôl-16	
5.1	<p>Dywedodd NH y byddai ffurflen yn cael ei dosbarthu i ysgolion yr wythnos nesaf yn gofyn am y niferoedd gwirioneddol o ran disgyblion y Chweched Dosbarth, gan gynnwys naratif yn dangos tystiolaeth hanesyddol. Bydd hyn yn llywio'r broses o ailddosbarthu arian eleni, gan ymgorffori £408k ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ôl-16.</p>	NH
6.	Sefyllfa Ariannol – Dileu Swyddi; CGG; TGAC	
6.1	<p><u>Dileu Swyddi</u></p> <p>Dywedodd RG fod costau ymadael yn costio cyfanswm o £1.057m ar hyn o bryd, gorwariant o £29k. Bydd angen ystyried y dewisiadau o ran y gorwariant yn ystod gweddill y flwyddyn, a bydd yn dibynnu'n rhannol ar y sefyllfa derfynol yn erbyn cyllidebau cyfun eraill, gan y gallai tanwariant arall wneud yn iawn am y gorwariant. Bydd digonolrwydd parhaus cyllideb dileu swyddi gwerth £1m yn cael ei ystyried ar ddiwedd y flwyddyn, er ei bod yn debygol o gael ei chadw.</p> <p><u>TGAC</u></p> <p>Mae cyllideb gyfun o £252,000 yn parhau i dalu cost taliadau TGAC yn 2019/20 ac mae'n annhebygol o fod yn ddigonol. Amcangyfrifir y bydd gorwariant diwedd y flwyddyn yn costio tua £359,000 ac y byddai'n cael ei adfachu o ysgolion cynradd ac uwchradd (nid yw ysgolion arbennig yn elwa o'r gyllideb mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchu sefyllfa fwy cadarnhaol nag mewn blynyddoedd blaenorol.</p> <p><u>CGG</u></p> <p>Mae'r ffigurau hyd yma'n dangos tanwariant posibl yn ystod y flwyddyn. Pe bai tanwariant, a chyda'r adfachu wedi'i weithredu yn ystod y flwyddyn, byddai'r diffyg hanesyddol yn cael ei ddileu a gallai greu byffer ar gyfer y blynyddoedd i ddod neu leihau cyfraniadau ysgolion yn y dyfodol.</p> <p>Tynnodd AB sylw at gynnydd yn y costau cyflenwi i ysgolion. Esboniodd RG fod y gyfradd sefydlog yn cael ei had-dalu'n gyflym a gall ysgolion wneud cais am y gwahaniaeth. Bydd nodyn atgoffa yn cael ei ddosbarthu i ysgolion yn nodi y gellir hawlio'r gwahaniaeth mewn cyflog yn ôl. Bydd fframwaith cyflenwi newydd ar waith ym mis Medi. Nododd AJ fod y costau wedi'u nodi yn y cylchlythyr</p>	RG/NH

	diwethaf a ddosbarthwyd.	
7.	CLG	
7.1	Amlinellodd NH ddadansoddiad o drefniant prynu'n ôl y CLG. Mae gwasanaethau adeiladu a glanhau y tu allan i'r CLG. Mae nifer o gyfarfodydd CLG wedi'u trefnu, gyda'r nod o gasglu adborth ar wasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o ran unrhyw newidiadau. Bydd y cyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod y FfCY ym mis Tachwedd. Bydd NH yn anfon e-bost yn gwahodd aelodau'r FfCY a Chadeiryddion cynadleddau.	NH
8	Unrhyw Fater Arall	
8.1	Nododd NH fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y cynnig i Goleg Dewi Sant ddychwelyd i'r ALL.	
9	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 27 Tachwedd 2019	

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Cronfa Gydgyflenwi

Dyddiad y cyfarfod nesaf:	16 Hydref 2019
Amser y cyfarfod:	8.30 am
Lleoliad:	YB1, Neuadd y Sir

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw nodi cyfanswm terfynol y gwariant yn ymwneud â'r Gronfa Gydgyflenwi (CG) ar ddiwedd Mis 6.

2. Cefndir a Chyd-destun

Mae'r Tîm Cyllid Addysg yn monitro'r costau ariannol a'r rhesymeg dros ad-daliadau yn gyson, ac mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio'n bennaf ar yr hawliadau a'r ad-daliadau hyd yma. Yn ystod Ebrill 2019, cyflwynodd ysgolion adroddiadau i RhCLI i gael eu digolledu am gostau'n ymwneud â CGG yn gysylltiedig â mis olaf 2018/19 ac roedd y costau ychwanegol hyn yn dod i gyfanswm o £403,000. Rhagdybiwyd faint o wariant allai fod yng ngweddill y flwyddyn ariannol, ond gallai'r ffigyrau hyn newid cyn Ebrill 2020.

3. Prif Faterion

Ar ôl adfachu cyfanswm o £500,000 yn ystod 2018/19, roedd y gorwariant cronol a gafodd ei gario ymlaen o 2018/19 yn £796,000. Mae'r cyfraniadau a'r ad-daliadau hyd yn hyn wedi'u hamlinellu isod.

2019/20

Cyfanswm cyfraniadau ar gyfer 2019/20	£4.41m
Costau i'r GGG ar gyfer Salwch M1-6	£0.86m
Costau i'r GGG ar gyfer Mamolaeth M1-6	£0.58m
Costau i'r GGG ar gyfer M1-6 Arall (gan gynnwys gwaharddiadau)	£0.12m
Costau Amcangyfrifedig i'r GGG ar gyfer M6-12 (pro rata)	£1.56m
Cyfanswm Costau i'r GGG	£3.52m
Cyfanswm tanwariant ar gyfer 2019/20	£1.29m

Amcanestyniad o'r Symudiad ar Atebolrwydd Hanesyddol y GGG

	£ miliwn
Balans agoriadol	0.796
Costau 2018/19 a Ad-dalwyd yn 2019/20	0.403
Adfachiad Ychwanegol	(0.500)

Safle yn ystod y flwyddyn a amcanestynnir ar gyfer 2019/20	(1.290)
Balans Rhagamcanol ar 31 Mawrth 2020	(0.591)

4. Goblygiadau Ariannol

Mae'r ffigyrau uchod yn awgrymu'r posibilrwydd am danwariant o fewn y flwyddyn, pe bai'r tueddiadau hyd yma'n parhau am weddill y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn cymryd yn ganiataol bod pob cais gan ysgolion wedi'i gyflwyno, ac felly bod y gwariant yn chwe mis cynta'r flwyddyn yn adlewyrchu'r gwariant tebygol yng ngweddill y flwyddyn. Fel yr amlinellwyd yn y tabl ar y dudalen flaenorol, os mai tanwariant yw'r canlyniad, gallai hyn, ochr yn ochr â'r adfachiad a wnaed yn ystod y flwyddyn hon, arwain at ddileu'r diffyg hanesyddol. Yn ychwanegol, gallai naill ai fod yn glustog ar gyfer blynyddoedd i ddod neu olygu y gallai ysgolion gyfrannu llai wrth fynd ymlaen.

5. Argymhelliad

Nodi cynnwys yr adroddiad.

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Diweddariad Dileu Swyddi

Dyddiad y cyfarfod:	16 Hydref 2019
Amser y cyfarfod:	8.30am
Lleoliad:	YB1, Neuadd y Sir

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar y sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn erbyn y cydgyllideb dileu swyddi ar gyfer 2019/20.

2. Cefndir a Chyd-destun

O ran blwyddyn ariannol 2019/20, mae swm o £1 filiwn ar gael fel cyllideb gyfun o fewn y gyllideb ysgolion gyffredinol. Clustnodwyd yr arian hwn ar gyfer unrhyw ddiswyddiadau rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, sydd o fewn meini prawf y Cyngor ar gyfer ariannu o'r gyllideb gyfun. Mae'r gyllideb gyfan sydd ar gael yn adlewyrchu cynnydd o £400,000 ar gyllideb y flwyddyn flaenorol, gan gydnabod y cynnydd sylweddol yng nghostau dileu swyddi yn ystod 2018/19. Yn ychwanegol, mae gweddill o £28,000 hefyd ar gael pe bai angen i'w osod yn erbyn gwariant yn ystod 2019/20. Mae'r gweddill yma'n ganlyniad i'r adfachiad a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn yn 2018/19, oedd ychydig yn uwch na'r hyn oedd ei angen.

3. Sefyllfa Bresennol

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf, o'r amserlenni dileu swyddi sydd gan adran Adnoddau Dynol y Cyngor, yn awgrymu y bydd cyfanswm y costau gadael yn £1.057. Mae'r swm wedi'i rannu fel a ganlyn:

Costau/rhifau'r swyddi sy'n cael eu dileu	Ysgolion Cynradd	Ysgolion Uwchradd	Cyfanswm
Staff Addysgu	£68k (3)	£87k (5)	£155k (8)
Staff Cymorth	£684k (54)	£218k (14)	£902k (68)
Cyfanswm	£752k (57)	£305k (19)	£1.057m (76)

Ni ddilëwyd swyddi mewn ysgolion arbennig eleni. Nid oes modd amcanestyn faint o wariant ychwanegol fydd rhwng nawr a diwedd y flwyddyn, er y byddai fel arfer yn isel, gan fod y rhan fwyaf o bobl yn gadael eu swyddi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

4. Goblygiadau Ariannol

Ar sail y cyllid sydd ar gael sy'n dod i gyfanswm o £1.028 miliwn, byddai gwariant o tua £1.057 miliwn, neu uwch, yn arwain yn amlwg at orwariant yn 2019/20. Bydd angen ystyried y dewisiadau o ran ariannu'r gorwariant hwn yn ystod gweddill y flwyddyn, a bydd yn dibynnu'n rhannol ar y sefyllfa derfynol yn erbyn cyllidebau cyfun eraill, gan y gallai tanwariant arall fod ar gael i'w osod yn ei erbyn. Os na fydd y dewis hwn yn rhoi digon o gyllid, bydd rhaid ystyried dewisiadau eraill, gan gynnwys adfachu arian gan ysgolion.

O ran gwybod a ydi cyllideb dileu swyddi o £1m yn ddigonol, mae'n anodd rhagweld yn gywir a fydd yn ddigonol ai peidio wrth fynd ymlaen. Bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar faint o wariant fydd yng ngweddill y flwyddyn. Os na fydd gwariant yn cynyddu'n sylweddol rhwng nawr a diwedd y flwyddyn, mae'n awgrymu y bydd cyllideb o £1m yn briodol. Os bydd costau'n cynyddu'n sylweddol, efallai bydd rhaid ystyried cynyddu'r gyllideb ymhellach yn 2020/21. Fel arall, efallai bydd angen adolygu'r meini prawf ar gyfer ariannu dileu swyddi i sicrhau bod y costau hynny'n parhau'n fforddiadwy, o fewn cyllideb gyffredinol yr ysgol, yn y dyfodol.

5. Argymhelliad

Nodi'r sefyllfa bresennol o ran y cydgyllideb dileu swyddi yn 2019/20 a'r sefyllfa o ran rhagamcan gorwariant ar gyfer y flwyddyn.

Fforwm Cyllideb Ysgolion Caerdydd
Taliad Gwella Anghenion Cymhleth

Dyddiad y cyfarfod:	16 Hydref 2019
Amser y cyfarfod:	8.30am
Lleoliad:	YB1, Neuadd y Sir

1. Diben yr adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi manylion am wariant y Taliad Gwella Anghenion Cymhleth (TGAC) yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 a'r goblygiadau ariannol i'r flwyddyn.

2. Cefndir a Chyd-destun

Yn 2018/19, cyfanswm y Taliadau Gwella Anghenion Cymhleth a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion oedd £8.680 miliwn. Erbyn diwedd y flwyddyn cyfanswm y TGACau oedd £11.182 miliwn yn adlewyrchu taliadau yn ystod y flwyddyn o £2.502 miliwn. Roedd cyllideb o £1.5m wedi'i roi o'r neilltu i ariannu'r taliadau TGAC yr oedd disgwyl iddyn nhw ddigwydd yn ystod 2018/19. Roedd y gyllideb yn annigonol a chafwyd y gorwariant yn ôl gan ysgolion ar ffurf adfachiad ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar gyfer 2019/20, cyfanswm y TGACau a ddirprwywyd i gyllidebau ysgol oedd £10.474 miliwn a'r gyllideb a neilltuwyd i dalu costau TGACau yn ystod y flwyddyn yn 2019/20 oedd £1.5 miliwn. Mae TGACau yn ystod y flwyddyn yn ariannu TGAC newydd, dyrchafiadau oed (Cynradd i Uwchradd; a Meithrin i Gynradd) ac adolygiadau o lefelau ariannu.

Ni newidiodd y Cyllid Ychwanegol i bob categori o 2018/19 gyda symiau blwyddyn lawn sef:

Meithrin £5,849
Cynradd A £14,624
Cynradd B £8,775
Uwchradd A £14,624
Uwchradd B £11,699

3. Materion Allweddol / diweddariad 2019/20

Cyfanswm y TGAC a ddirprwywyd i ysgolion oedd £10,474,000. Ar ddiwedd Medi, cododd cyfanswm gwerth taliadau TGAC i £11,722,000, gan

adlewyrchu'r taliadau o fewn y flwyddyn rhwng Ebrill 2019 a Medi 2019 sef £1,248,000.

Rhoir cyllideb gyfun o £1,500,000 i'r naill ochr i dalu costau taliadau TGAC yn ystod 2019/20. Felly, dim ond £252,000 sydd ar ôl yn y gyllideb gyfun i ariannu TGAC rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020, sy'n annhebygol o fod yn ddiagonol.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r hollt wybodaeth rhwng ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

	Cyfanswm (ar ddiwedd Medi)	Cynradd	Uwchradd
Cyfanswm TGAC	£11,721,589	£7,404,353	£4,317,236
TGAC dirprwyedig	£10,474,126	£6,415,407	£4,058,719
TGAC a dalwyd Ebr-Medi	£1,247,463	£988,946	£258,517
Cyllideb gyfun ar gyfer taliadau TGACau yn ystod y flwyddyn	£1,500,000		
Y gyllideb sy'n weddill	£252,537		

Mae proffil y gwariant hyd yma'n awgrymu cynnydd cyfartalog o 10.3% ar TGAC 2018/19. Erbyn diwedd y flwyddyn, gallai cyfanswm TGAC fod yn £12,333,000 gan adlewyrchu taliadau o fewn y flwyddyn o £1,859,000. Byddai hyn yn orwariant o £359,000 yn erbyn y gyllideb gyfun ac yn cael ei adfer o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol fel sail ddyrannu.

4. Goblygiadau Ariannol

Y gweddill ar y gyllideb TGAC gyfun yw £253,000 ar ddiwedd Medi. Y gorwariant a amcanestynnir ar ddiwedd y flwyddyn yw tua £359,000 a byddai hyn yn cael ei adfer gan Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol fel sail ddyrannu. Nid yw Ysgolion Arbennig yn cael eu cynnwys yn yr adfachiad am nad ydynt yn cael budd o'r gyllideb TGAC gyfun.

Dylid nodi bod y sefyllfa bresennol, er yn adlewyrchu gorwariant tebygol, yn welliant ar y flwyddyn ariannol flaenorol, pan roedd gorwariant o tua £500,000 eisoes wedi bod ar y gyllideb gyfun ar yr un adeg o'r flwyddyn.

Mae'n ymddangos bod y gyllideb gyfun o £1,500,000 ar gyfer 2019/20 yn annigonol i ateb y galw am TGACau yn ystod y flwyddyn, a bydd yn parhau i fod oni ddigwydd un o'r canlynol:

- Nifer y disgyblion a gyflwynwyd fel rhai ag Anghenion Cymhleth yn lleihau

- Swm y cyllid i bob Taliad Gwella Anghenion Cymhleth yn cael ei adolygu a'i leihau.
- Swm y gyllideb gyfun yn cael ei gynyddu.

5. Argymhelliad

Nodi rhagamcan o'r alldro ar gyfer 2019/20 o Daliadau Anghenion Cymhleth.



Diweddariad ar Gyllideb Ysgolion 2020/21
Fforwm Cyllideb Ysgolion
16 Hydref 2019



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

CYFRINACHOL - DRAFFT DI-STATWS



Cynnwys

- Proses Gyllideb y Cyngor
- Atgoffa am y Blwch yng Nghyllideb y Cyngor
- Pwysau Cyllidebol Allweddol ar Ysgolion - Cyflogau, Pensiynau
- Grantiau, gan gynnwys Grant Seilwaith TGCh



Amserlen Cyllideb y Cyngor

- Cafodd yr Adroddiad ar Strategaeth y Gyllideb ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2019
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio cynigion gyda golwg ar sicrhau arbedion mewn cyfarwyddiaethau
- Mae'r Setliad Dros Dro yn debygol o ddod i law yn hwyrach nag arfer - diwedd mis Tachwedd 2019
- Mae'n debygol y bydd y grantiau yn dilyn - dechrau mis Rhagfyr
- Nid yw dyddiad cyhoeddi'r Setliad Terfynol yn hysbys
- Rhaid pennu'r gyllideb erbyn mis Mawrth 2020



Atgoffa am Fwlch a Strategaeth y Gyllideb 2020/21

- Mae'r Adroddiad ar Strategaeth y Gyllideb 2020/21 yn nodi bwlch arfaethedig o £25m yn y gyllideb ar gyfer 2020/21 a £101m yn y tymor canolig.
- Mae hyn yn adlewyrchu cyfuniad o bwysau chwyddiannol, twf demograffig a gostyngiad amcanestynedig o 0.5% yn y Cyllid Allanol Cyfun.

Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Gorffennaf 2019	2020/21 £000	2021/22 £000	2022/23 £000	2023/24 £000	Cyfansw m £000
Pwysau Cyllidebol	23,728	25,711	22,495	21,222	93,156
Problemau Cyllido	1,251	2,212	2,201	2,190	7,854
CYFANSWM Y BWLCH YN Y GYLLIDEB	24,979	27,923	24,696	23,412	101,010

- Bwriedir mynd i'r afael â'r bwlch drwy gynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor, 1% yn Effeithlonrwydd Ysgolion a chyfanswm arbedion o £18.5m.



Pwysau Cyflogau a Phensiynau Ysgolion

Cyflog Athrawon

- Mae LIC wedi bod yn ymgynghori yn ddiweddar ar gynnydd o 2.75% i gyflogau athrawon ym mhob gradd ac eithrio M1, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad ar gynnydd 5%.
- Amcangyfrifir y bydd effaith y dyfarniad oddeutu £600k yn 2019/20.
- Roedd y Cyngor yn wreiddiol wedi cyllido dyfarniad cyflog tybiedig o 2%, oedd yn destun y cap o 30%.
- Ar hyn o bryd tybir y bydd cyllid LIC ar gael i dalu am gostau'r gwahaniaeth.
- **Nid yw LIC wedi cadarnhau eu sefyllfa mewn perthynas â'r cyllid hwn un ai yn 2019/20 neu i'r dyfodol.**

Pensiynau Athrawon

- Ar adeg pennu cyllideb 2019/20, nid oedd cyllid LIC ar gyfer y cynnydd ym Mhensiynau Athrawon wedi'i gadarnhau.
- Roedd y Cyngor wedi cyllido'n llawn y pwysau amcanol o ran y costau, a oedd wedyn yn destun y cap o 30%.
- Daeth cyllid LIC i law wedi hynny (£4m). Caiff hwn ei neilltuo'n gyfan gwbl ar gyfer ysgolion, a fydd yn ein galluogi i ryddhau'r cyllid sylfaenol a roddwyd yn wreiddiol - tua £3m.
- Tybir y caiff y cyllid hwn ei drosglwyddo i'r setliad ar gyfer 2020/21 a bydd effaith y flwyddyn lawn yn cael ei chyllido (£3m pellach).
- **Nid yw LIC wedi cadarnhau eu sefyllfa mewn perthynas â'r cyllid hwn i'r dyfodol.**



Grantiau

- Ni chafwyd ond ychydig o ddiweddariad gan LG yn y Cyfarfod Cyllid CCAC diwethaf.
- Roedd LIC yn gobeithio am barhad y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, ond ni allai gadarnhau dim - hyd yn oed petai'n parhau, gallai Caerdydd fod ar ei cholled os cyflwynir sail dosbarthu adolygedig.
- Grant Amddifadedd Disgyblion - Cadarnhaodd LIC ei bod yn edrych ar ddefnyddio mwy ar y data CYBLD ar gyfer dosbarthu'r Grant Amddifadedd Disgyblion (CYBLD 2018?)
- Nid oes diweddariad ar y Grant Ôl-16
- Grant Seilwaith TTGCh 2019/20:
 - Cadarnhawyd y bydd Caerdydd yn gallu manteisio ar gyllid o tua £5m (y rhan fwyaf ohono i'w wario drwy gatalog LIC, nid ei ddosbarthu i ALLau).
 - I'w ddefnyddio i sicrhau bod seilwaith hyd at lefel benodol ar gael ym mhob ysgol.
 - Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd cyllid ar gael i'r dyfodol ond mae swyddogion LIC yn obeithiol.
 - Beth bynnag, byddai'r swm blynyddol yn gostwng o un flwyddyn i'r llall a byddai'n rhaid i ALLau lunio model cyllid cynaliadwy yn ei le.